Swyddog Rhyddid Gwybodaeth,
Awdurdod Cyllid Cymru,
Blwch Post 108
Merthyr Tudful
CF47 7DL
E-bost: data@acc.llyw.cymru

xxx

1 Mai 2024

Annwyl xxx

**WRA-FOI-0063 – Rhyddhad TTT ar gyfer 6+ eiddo**

Diolch i chi am eich cais, a dderbyniais ar 15 Ebrill 2024 ynglŷn â rhyddhad TTT ar gyfer 6+ eiddo. Mae ein hymateb isod,

Nid yw'r rhyddhad yr ydych yn cyfeirio ato yn rhyddhad mewn gwirionedd, ond yn hytrach reol sy'n caniatáu i drethdalwr sy'n prynu chwech neu fwy o anheddau preswyl gymhwyso'r cyfraddau treth amhreswyl i'r trafodiad. Mae cyfeiriad at hyn yn yr ymgynghoriad. Un ffordd o amcangyfrif gwerth y rheol hon yw cyfrifo beth fyddai'r dreth wedi bod pe bai'r gyfradd breswyl uwch yn cael ei chymhwyso i'r un trafodiadau. Byddai hynny'n ymddangos yn debygol oni bai am y rheol, ac yna byddem yn tynnu'r dreth a dalwyd mewn gwirionedd er mwyn cael amcangyfrif cychwynnol o werth y rheol. Fodd bynnag, gan nad yw'r rheol yn rhyddhad mewn gwirionedd, mae rhyddhadau a allai fod yn berthnasol i'r trafodiadau hyn hefyd, ac felly dylem hefyd ystyried y rheini wrth wneud y cyfrifiad hwn hefyd.

Rydym wedi gwneud hynny gan ddefnyddio'r data ar gyfer 2023-24, y cyhoeddwyd y rhan gyntaf ohono ar 25 Ebrill 2024. O fewn y ffigurau cyhoeddedig hyn gallem nodi 75 o drafodiadau y rhoddwyd prynu chwech neu fwy o anheddau fel y rheswm dros gymhwyso'r cyfraddau treth amhreswyl. Gan gymhwyso'r cyfrifiad uchod i'r trafodiadau hynny, a chan gynnwys ystyried y rhyddhadau gwirioneddol a hawliwyd, rydym yn amcangyfrif bod uchafswm o £1.6m o dreth a allai fod wedi bod yn daladwy fel arall pe na bai'r rheol wedi'i chymhwyso. Uchafswm yw'r ffigwr hwn gan nad yw'n cymryd unrhyw ystyriaeth o unrhyw drafodiad a allai fod wedi'i strwythuro'n wahanol neu na ddigwyddodd o gwbl, a byddai pob un o'r rhain wedi lleihau faint o dreth a gasglwyd mewn gwirionedd.

Mae'r amcangyfrif wedi'i gynnwys fel rhan o gyfres o dablau yr ydym wedi'u hychwanegu i'n tudalen we yn ymwneud â'n data cyhoeddedig (Ystadegau'r Dreth Trafodiadau Tir: Ionawr i Fawrth 2024). Mae'r rhain hefyd yn rhoi rhywfaint o ddadansoddiadau eang pellach o'r 75 trafodiad yn 2023-24, yn ôl gwerth y trafodiad, y math o brynwr ac ar gyfer rhai ardaloedd lleol, yn ogystal â rhywfaint o ddadansoddiad ychwanegol o ddata tebyg ar gyfer rhyddhad anheddau lluosog yn 2023-24.

Rwy'n gobeithio bod hyn yn ateb eich cwestiwn.

Os ydych yn anfodlon â'r ffordd y mae Awdurdod Cyllid Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith i ddyddiad yr ymateb hwn. Dylid cyfeirio ceisiadau am adolygiad mewnol at Swyddog Rhyddid Gwybodaeth Awdurdod Cyllid Cymru:

Swyddog Rhyddid Gwybodaeth,
Awdurdod Cyllid Cymru,
Blwch Post 108,
Merthyr Tudful.
CF47 7DL

neu e-bostiwch: data@acc.llyw.cymru

Cofiwch ddyfynnu'r cyfeirnod uchod os gwelwch yn dda.

Mae gennych hefyd hawl i gwyno wrth y Comisiynydd Gwybodaeth. Sylwch, fodd bynnag, na fydd y Comisiynydd fel arfer yn ymchwilio i gŵyn hyd nes ei bod wedi bod drwy ein proses adolygu mewnol ni.

Gellir cysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn: Information Commissioner's Office,
Wycliffe House,
Water Lane,
Wilmslow,
Cheshire,
SK9 5AF.
Ffôn: 01625 545 745
E-bost: casework@ico.gsi.gov.uk

Yn gywir
Swyddog Rhyddid Gwybodaeth